

Gwasanaeth Cwnsela

Nodau ac amcanion

Darparu amrywiaeth o wasanaethau therapiwtig effeithiol i fyfyrwyr mewn modd ymatebol a hyblyg. Defnyddio arbenigedd proffesiynol y tîm i roi cymorth seicolegol sy'n dderbyniol, yn amserol, yn deg, yn addas ac yn effeithiol er mwyn cefnogi myfyrwyr yn ystod eu hamser yn y brifysgol.

- Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid wrth ddatblygu strategaethau.
- Blaenoriaethu adnoddau mewn modd effeithiol er mwyn cynorthwyo'r rhai sydd fwyaf angen cymorth.
- Darparu a monitro gwasanaeth hygyrch i fyfyrwyr ag amrywiol anghenion a fyddai fel arall efallai'n cael trafferth dod o hyd i gymorth.
- Cynnal sgiliau proffesiynol y staff fel eu bod yn gallu diwallu'r gofynion o ran y gwasanaeth a'r ddarpariaeth.
- Mesur a dangos effaith a gwerth y gwasanaeth i'r brifysgol a'i myfyrwyr.
- Cynnal system effeithiol o gyfeirio myfyrwyr a dulliau cydweithredol o weithio gyda thimau, gwasanaethau ac adrannau eraill.